OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2023 Rhif 299 (Cy. 44)

# 2023 No. 299 (W. 44)

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## SOCIAL CARE, WALES

Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol, Atodol a Deilliadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2023

The Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020 (Consequential, Supplementary and Incidental Amendments and Revocations) (Secondary Legislation) Regulations 2023

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 28 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (dsc 1) ("Deddf 2020").

Sefydlodd Deddf 2020 Gorff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru ("y Corff"). Amcan cyffredinol y Corff, wrth arfer ei swyddogaethau, yw cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae Deddf 2020 hefyd yn darparu ar gyfer dileu'r Cynghorau Iechyd Cymuned.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol, atodol a deilliadol i is-ddeddfwriaeth, ac yn darparu ar gyfer dirymu is-ddeddfwriaeth, er mwyn adlewyrchu bod y Corff wedi ei sefydlu a bod ei swyddogaethau o sylwedd wedi eu cychwyn, a bod y Cynghorau Iechyd Cymuned wedi eu dileu, fel y darperir ar eu cyfer yn Neddf 2020.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations are made under section 28 of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020 (asc 1) ("the 2020 Act").

The 2020 Act established the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales ("the Body"). The Body's general objective, in exercising its functions, is to represent the interests of the public in respect of health and social services. The 2020 Act also provides for the abolition of the Community Health Councils.

These Regulations make consequential, supplementary and incidental amendments to, and provide for the revocation of, secondary legislation to reflect the establishment of the Body and the commencement of its substantive functions, and the abolition of the Community Health Councils, provided for in the 2020 Act.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 299 (Cy. 44)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol, Atodol a Deilliadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Mawrth 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *10 Mawrth 2023* |

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 28(1)(a), (2) a (3) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020(**1**).

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Diwygiadau a Dirymiadau Canlyniadol, Atodol a Deilliadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2023.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2023.

(3) Daw'r rheoliadau a ganlyn i rym ar 1 Gorffennaf 2023—

(a) rheoliad 2,

(**1**) 2020 dsc 1.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2023 No. 299 (W. 44)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

# SOCIAL CARE, WALES

## The Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020 (Consequential, Supplementary and Incidental Amendments and Revocations) (Secondary Legislation) Regulations 2023

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 March 2023* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *10 March 2023* |

*Coming into force in accordance with regulation 1(2) and (3)*

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by section 28(1)(a), (2) and (3) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020(**1**).

**Title and coming into force**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020 (Consequential, Supplementary and Incidental Amendments and Revocations) (Secondary Legislation) Regulations 2023.

(2) Subject to paragraph (3), these Regulations come into force on 1 April 2023.

(3) The following regulations come into force on 1 July 2023—

(a) regulation 2,

(**1**) 2020 asc 1.

(b) rheoliad 9(5)(c), (e), (f) ac (g),

(c) rheoliad 9(6)(c), (e), (f) ac (g),

(d) rheoliad 9(7)(c).

**Diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1 (telerau gwasanaeth), ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

"**2A.** Code of practice on access to premises

A contractor must have regard to the code of practice on access to premises prepared and published by the Welsh Ministers under section 19(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020 ("the 2020 Act") (so far as the code is relevant) in exercising any function that relates to the provision of health services or social services (within the meaning of those terms in section 21 of the 2020 Act)."

**Diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pwyllgorau Gwasanaethau a'r Tribiwnlys) 1992**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pwyllgorau Gwasanaethau a'r Tribiwnlys) 1992(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle rheoliad 32(1)(d)(ii) (cyflwyno dogfennau) rhodder—

"(ii) the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales ("the Body") established under section 12(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020 or any person acting on its behalf, by delivering it or sending it by post to the Body's chief executive or board secretary at its principal office,".

(**1**) O.S. 1986/975, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 1992/664; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1996/703, O.S. 2002/2469, O.S. 2003/1937, O.S. 2004/1016 (Cy. 113), O.S. 2004/1771, O.S. 2006/562 ac O.S. 2012/1909.

(b) regulation 9(5)(c), (e), (f) and (g),

(c) regulation 9(6)(c), (e), (f) and (g),

(d) regulation 9(7)(c).

**Amendments to the National Health Service (General Ophthalmic Services) Regulations 1986**

**2.**—(1) The National Health Service (General Ophthalmic Services) Regulations 1986(**1**) are amended as follows.

(2) In Schedule 1 (terms of service), after paragraph 2 insert—

"**2A.** Code of practice on access to premises

A contractor must have regard to the code of practice on access to premises prepared and published by the Welsh Ministers under section 19(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020 ("the 2020 Act") (so far as the code is relevant) in exercising any function that relates to the provision of health services or social services (within the meaning of those terms in section 21 of the 2020 Act)."

**Amendments to the National Health Service (Service Committees and Tribunal) Regulations 1992**

**3.**—(1) The National Health Service (Service Committees and Tribunal) Regulations 1992(**2**) are amended as follows.

(2) For regulation 32(1)(d)(ii) (service of documents) substitute—

"(ii) the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales ("the Body") established under section 12(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020 or any person acting on its behalf, by delivering it or sending it by post to the Body's chief executive or board secretary at its principal office,".

(**1**) S.I. 1986/975, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(**2**) S.I. 1992/664; relevant amending instruments are S.I. 1996/703, S.I. 2002/2469, S.I. 2003/1937, S.I. 2004/1016 (W. 113), S.I. 2004/1771, S.I. 2006/562 and S.I. 2012/1909.

(3) Yn Atodlen 2, ym mharagraff 8(b)(iv) (cyfansoddiad pwyllgorau disgyblu), ar ôl "Act" mewnosoder "or the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales, established under section 12(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020".

**Diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli), hepgorer y diffiniad o "CHC".

(3) Yn Atodlen 6, hepgorer paragraff 88 (mynd i fangre a'i harolygu gan aelodau o Gynghorau Iechyd Cymuned).

**Diwygiadau i Reoliadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) 2005**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) 2005(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2) (enwi, cychwyn a dehongli), yn y diffiniad o "health service body", ym mharagraff (a)—

(a) hepgorer "or", a

(b) ar ôl "Community Health Council," mewnosoder "or the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales, established under section 12(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020,".

(3) In Schedule 2, in paragraph 8(b)(iv) (constitution of discipline committees), after "Act" insert "or the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales, established under section 12(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020".

**Amendments to the National Health Service (General Medical Services Contracts) (Wales) Regulations 2004**

**4.**—(1) The National Health Service (General Medical Services Contracts) (Wales) Regulations 2004(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1) (interpretation), omit the definition of "CHC".

(3) In Schedule 6, omit paragraph 88 (entry and inspection by members of Community Health Councils).

**Amendments to the NHS Blood and Transplant (Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG) Regulations 2005**

**5.**—(1) The NHS Blood and Transplant (Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG) Regulations 2005(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 1(2) (citation, commencement and interpretation), in the definition of "health service body", in paragraph (a)—

(a) omit "or", and

(b) after "Community Health Council," insert "or the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales, established under section 12(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020,".

(**1**) O.S. 2004/478 (Cy. 48); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2006/358 (Cy. 36), O.S. 2006/945 (Cy. 94), O.S. 2007/205 (Cy. 19), O.S. 2007/289, O.S. 2008/1329 (Cy. 138), O.S. 2008/1425 (Cy. 147), O.S. 2010/22, O.S. 2010/231, O.S. 2010/234, O.S. 2010/729 (Cy. 70), O.S. 2010/1647 (Cy. 155), O.S. 2012/1479, O.S. 2012/1916, O.S. 2013/235, O.S. 2013/898 (Cy. 102), O.S. 2014/2291 (Cy. 226), O.S. 2016/90, O.S. 2016/1221 (Cy. 292), O.S. 2019/149 (Cy. 34), O.S. 2019/1094, O.S. 2020/1073 (Cy. 241) ac O.S. 2022/634.

(**2**) O.S. 2005/2531; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2005/3491, O.S. 2006/640, O.S. 2006/945 (Cy. 94), O.S. 2010/22, O.S. 2010/2538, O.S. 2011/2581, O.S. 2012/1641, O.S. 2013/235 ac O.S. 2015/137.

(**1**) S.I. 2004/478 (W. 48); relevant amending instruments are S.I. 2006/358 (W. 36), S.I. 2006/945 (W. 94), S.I. 2007/205 (W. 19), S.I. 2007/289, S.I. 2008/1329 (W. 138), S.I. 2008/1425 (W. 147), S.I. 2010/22, S.I. 2010/231, S.I. 2010/234, S.I. 2010/729 (W. 70), S.I. 2010/1647 (W. 155), S.I. 2012/1479, S.I. 2012/1916, S.I. 2013/235, S.I. 2013/898 (W. 102), S.I. 2014/2291 (W. 226), S.I. 2016/90, S.I. 2016/1221 (W. 292), S.I. 2019/149 (W. 34), S.I. 2019/1094, S.I. 2020/1073 (W. 241) and S.I. 2022/634.

(**2**) S.I. 2005/2531; relevant amending instruments are S.I. 2005/3491, S.I. 2006/640, S.I. 2006/945 (W. 94), S.I. 2010/22, S.I. 2010/2538, S.I. 2011/2581, S.I. 2012/1641, S.I. 2013/235 and S.I. 2015/137.

**Diwygiadau i Reoliadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) 2005**

**6.**—(1) Mae Rheoliadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) 2005(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2) (enwi, cychwyn a dehongli), yn y diffiniad o "health service body", ym mharagraff (a)—

(a) yn lle "or" rhodder ",", a

(b) ar ôl "Community Health Council," mewnosoder "or the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales, established under section 12(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020,".

**Diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006**

**7.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 3—

(a) hepgorer paragraff 36 (ceisiadau gan Gynghorau Iechyd Cymuned am wybodaeth),

(b) ym mharagraff 44(3) (mynd i fangre a'i harolygu gan y Bwrdd Iechyd Lleol) hepgorer "45 or" a ", members of a Community Health Council", ac

(c) hepgorer paragraff 45 (mynd i fangre a'i harolygu gan aelodau o Gynghorau Iechyd Cymuned).

(**1**) O.S. 2005/2415; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2005/3491, O.S. 2006/633, O.S. 2006/945 (Cy. 94), O.S. 2010/22, O.S. 2010/2538, O.S. 2011/2581, O.S. 2012/1641, O.S. 2013/235 ac O.S. 2015/137.

(**2**) O.S. 2006/490 (Cy. 59), a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/462; mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**Amendments to the NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) Regulations 2005**

**6.**—(1) The NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) Regulations 2005(**1**) are amended as follows.

(2) In regulation 1(2) (citation, commencement and interpretation), in the definition of "health service body", in paragraph (a)—

(a) for "or" substitute ",", and

(b) after "Community Health Council," insert "or the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales, established under section 12(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020,".

**Amendments to the National Health Service (General Dental Services Contracts) (Wales) Regulations 2006**

**7.**—(1) The National Health Service (General Dental Services Contracts) (Wales) Regulations 2006(**2**) are amended as follows.

(2) In Schedule 3—

(a) omit paragraph 36 (requests for information from Community Health Councils),

(b) in paragraph 44(3) (entry and inspection by the Local Health Board) omit "45 or" and ", members of a Community Health Council", and

(c) omit paragraph 45 (entry and inspection by members of Community Health Councils).

(**1**) S.I. 2005/2415; relevant amending instruments are S.I. 2005/3491, S.I. 2006/633, S.I. 2006/945 (W. 94), S.I. 2010/22, S.I. 2010/2538, S.I. 2011/2581, S.I. 2012/1641, S.I. 2013/235 and S.I. 2015/137.

(**2**) S.I. 2006/490 (W. 59), amended by S.I. 2009/462; there are other amending instruments, but none are relevant to these Regulations.

**Diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006**

**8.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 3—

(a) hepgorer paragraff 37 (ceisiadau gan Gynghorau Iechyd Cymuned am wybodaeth),

(b) ym mharagraff 44(3) (mynd i fangre a'i harolygu gan y Corff Perthnasol) hepgorer "45 or" a ", members of a Community Health Council", ac

(c) hepgorer paragraff 45 (mynd i fangre a'i harolygu gan aelodau o Gynghorau Iechyd Cymuned).

**Diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020**

**9.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) hepgorer y diffiniad o "Cyngor Iechyd Cymuned", a

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "Corff Llais y Dinesydd" ("*Citizen Voice Body*") yw Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru, a sefydlwyd o dan adran 12(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020;".

(3) Yn rheoliad 7(1)(h) (ymgynghori ar asesiadau o anghenion fferyllol), yn lle "unrhyw Gyngor Iechyd Cymuned ar gyfer ei ardal" rhodder "Corff Llais y Dinesydd".

(4) Yn Atodlen 3—

(a) ym mharagraff 4(2)(c) (hysbysu ynghylch bwriad i wneud penderfyniad mewn cysylltiad ag ardaloedd rheoledig), yn lle "y Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer yr ardal" rhodder "Corff Llais y Dinesydd", a

**Amendments to the National Health Service (Personal Dental Services Agreements) (Wales) Regulations 2006**

**8.**—(1) The National Health Service (Personal Dental Services Agreements) (Wales) Regulations 2006(**1**) are amended as follows.

(2) In Schedule 3—

(a) omit paragraph 37 (requests for information from Community Health Councils),

(b) in paragraph 44(3) (entry and inspection by the Relevant Body) omit "45 or" and ", members of a Community Health Council", and

(c) omit paragraph 45 (entry and inspection by members of Community Health Councils).

**Amendments to the National Health Service (Pharmaceutical Services) (Wales) Regulations 2020**

**9.**—(1) The National Health Service (Pharmaceutical Services) (Wales) Regulations 2020(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1) (interpretation)—

(a) omit the definition of "Community Health Council", and

(b) at the appropriate place insert—

""Citizen Voice Body" ("*Corff Llais y Dinesydd*") means the Citizen Voice Body for Health and Social Care, Wales, established under section 12(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020;".

(3) In regulation 7(1)(h) (consultation on pharmaceutical needs assessments), for "any Community Health Council for its area" substitute "the Citizen Voice Body".

(4) In Schedule 3—

(a) in paragraph 4(2)(c) (notice of proposed determination in respect of controlled localities), for "the Community Health Council for the area" substitute "the Citizen Voice Body", and

(**1**) O.S. 2006/489 (Cy. 58), a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/462; mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 2020/1073 (Cy. 241), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) S.I. 2006/489 (W. 58), amended by S.I. 2009/462; there are other amending instruments, but none are relevant to these Regulations.

(**2**) S.I. 2020/1073 (W. 241), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

(b) ym mharagraff 9(1)(e) (personau a chyrff sydd i'w hysbysu), yn lle "unrhyw Gyngor Iechyd Cymuned sy'n gwasanaethu ardal y Bwrdd Iechyd Lleol" rhodder "Corff Llais y Dinesydd".

(5) Yn Atodlen 5—

(a) ym mharagraff 2(c)(ii) (corffori darpariaethau), yn lle ", a" rhodder ".",

(b) hepgorer paragraff 2(d) (corffori darpariaethau),

(c) ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

"**2A.** Cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd

Rhaid i fferyllydd GIG sy'n darparu gwasanaethau fferyllol roi sylw i'r cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd sydd wedi ei lunio a'i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 19(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020") (i'r graddau y mae'r cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol (o fewn ystyr y termau hynny yn adran 21 o Ddeddf 2020).",

(d) hepgorer paragraff 28(3)(a)(vii) (llywodraethu clinigol),

(e) ym mharagraff 28(3)(a)(viii) (llywodraethu clinigol) hepgorer "a",

(f) ym mharagraff 28(3)(a)(ix) (llywodraethu clinigol), ar ôl "Deddf Cydraddoldeb 2010," mewnosoder "a",

(g) ar ôl paragraff 28(3)(a)(ix) (llywodraethu clinigol) mewnosoder—

"(x) gofyniad bod rhaid i'r fferyllydd GIG roi sylw i'r cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd sydd wedi ei lunio a'i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 19(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020") (i'r graddau y mae'r cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol (o fewn ystyr y termau hynny yn adran 21 o Ddeddf 2020),".

(6) Yn Atodlen 6—

(a) ym mharagraff 1(c)(ii) (corffori darpariaethau), yn lle ", a" rhodder ".",

(b) hepgorer paragraff 1(d) (corffori darpariaethau),

(b) in paragraph 9(1)(e) (persons and bodies to be notified), for "any Community Health Council serving the area of the Local Health Board" substitute "the Citizen Voice Body".

(5) In Schedule 5—

(a) in paragraph 2(c)(ii) (incorporation of provisions), for ", and" substitute ".",

(b) omit paragraph 2(d) (incorporation of provisions),

(c) after paragraph 2 insert—

"**2A.** Code of practice on access to premises

An NHS pharmacist who provides pharmaceutical services must have regard to the code of practice on access to premises prepared and published by the Welsh Ministers under section 19(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020 ("the 2020 Act") (so far as the code is relevant) in exercising any function that relates to the provision of health services or social services (within the meaning of those terms in section 21 of the 2020 Act).",

(d) omit paragraph 28(3)(a)(vii) (clinical governance),

(e) in paragraph 28(3)(a)(viii) (clinical governance) omit "and",

(f) in paragraph 28(3)(a)(ix) (clinical governance), after "Equality Act 2010," insert "and",

(g) after paragraph 28(3)(a)(ix) (clinical governance) insert—

"(x) a requirement that the NHS pharmacist must have regard to the code of practice on access to premises prepared and published by the Welsh Ministers under section 19(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020 ("the 2020 Act") (so far as the code is relevant) in exercising any function that relates to the provision of health services or social services (within the meaning of those terms in section 21 of the 2020 Act),".

(6) In Schedule 6—

(a) in paragraph 1(c)(ii) (incorporation of provisions), for ", and" substitute ".",

(b) omit paragraph 1(d) (incorporation of provisions),

(c) ar ôl paragraff 1 mewnosoder—

“**1A.** Cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd

Rhaid i gontractwr cyfarpar GIG sy’n darparu gwasanaethau fferyllol roi sylw i’r cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd sydd wedi ei lunio a’i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 19(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (“Deddf 2020”) (i’r graddau y mae’r cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol (o fewn ystyr y termau hynny yn adran 21 o Ddeddf 2020).”,

(d) hepgorer paragraff 17(3)(a)(vii) (llywodraethu clinigol),

(e) ym mharagraff 17(3)(a)(viii) (llywodraethu clinigol) hepgorer “a”,

(f) ym mharagraff 17(3)(a)(ix) (llywodraethu clinigol), ar ôl “Deddf Cydraddoldeb 2010,” mewnosoder “a”,

(g) ar ôl paragraff 17(3)(a)(ix) (llywodraethu clinigol) mewnosoder—

“(x) gofyniad bod rhaid i’r contractwr cyfarpar GIG roi sylw i’r cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd sydd wedi ei lunio a’i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 19(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (“Deddf 2020”) (i’r graddau y mae’r cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol (o fewn ystyr y termau hynny yn adran 21 o Ddeddf 2020),”.

(7) Yn Atodlen 7—

(a) ym mharagraff 2(c)(ii) (corffori darpariaethau), yn lle “, a” rhodder “.”,

(b) hepgorer paragraff 2(d) (corffori darpariaethau),

(c) ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

“**2A.** Cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd

Rhaid i feddyg sy’n darparu gwasanaethau fferyllol roi sylw i’r cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd sydd wedi ei lunio a’i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 19(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (“Deddf 2020”) (i’r graddau

(c) after paragraph 1 insert—

“**1A.** Code of practice on access to premises

An NHS appliance contractor who provides pharmaceutical services must have regard to the code of practice on access to premises prepared and published by the Welsh Ministers under section 19(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020 (“the 2020 Act”) (so far as the code is relevant) in exercising any function that relates to the provision of health services or social services (within the meaning of those terms in section 21 of the 2020 Act).”,

(d) omit paragraph 17(3)(a)(vii) (clinical governance),

(e) in paragraph 17(3)(a)(viii) (clinical governance) omit “and”,

(f) in paragraph 17(3)(a)(ix) (clinical governance), after “Equality Act 2010,” insert “and”,

(g) after paragraph 17(3)(a)(ix) (clinical governance) insert—

“(x) a requirement that the NHS appliance contractor must have regard to the code of practice on access to premises prepared and published by the Welsh Ministers under section 19(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020 (“the 2020 Act”) (so far as the code is relevant) in exercising any function that relates to the provision of health services or social services (within the meaning of those terms in section 21 of the 2020 Act),”.

(7) In Schedule 7—

(a) in paragraph 2(c)(ii) (incorporation of provisions), for “, and” substitute “.”,

(b) omit paragraph 2(d) (incorporation of provisions),

(c) after paragraph 2 insert—

“**2A.** Code of practice on access to premises

A doctor who provides pharmaceutical services must have regard to the code of practice on access to premises prepared and published by the Welsh Ministers under section 19(1) of the Health and Social Care (Quality and Engagement) (Wales) Act 2020 (“the 2020 Act”) (so far as the code is

y mae'r cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol (o fewn ystyr y termau hynny yn adran 21 o Ddeddf 2020)."

**Dirymiadau**

**10.** Mae Gorchymyn Cyngor Iechyd Cymuned (Sefydlu Cyngor Iechyd Cymuned Sir Gaerfyrddin, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu Cynghorau Iechyd Cymuned Llanelli/Dinefwr a Chaerfyrddin/Dinefwr) 2006(**1**) wedi ei ddirymu.

**11.** Mae Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010(**2**) wedi eu dirymu.

**12.** Mae Gorchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) 2010(**3**) wedi ei ddirymu.

**13.**—(1) Mae'r offerynnau a restrir yn Rhan 1 o'r Atodlen wedi eu dirymu.

(2) Mae'r darpariaethau a restrir yn Rhan 2 o'r Atodlen wedi eu dirymu.

relevant) in exercising any function that relates to the provision of health services or social services (within the meaning of those terms in section 21 of the 2020 Act)."

**Revocations**

**10.** The Community Health Council (Establishment of Carmarthenshire Community Health Council, Transfer of Functions and Abolition of Llanelli/Dinefwr and Carmarthen/Dinefwr Community Health Councils) Order 2006(**1**) is revoked.

**11.** The Community Health Councils (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) Regulations 2010(**2**) is revoked.

**12.** The Community Health Councils (Establishment, Transfer of Functions and Abolition) (Wales) Order 2010(**3**) is revoked.

**13.**—(1) The instruments listed in Part 1 of the Schedule are revoked.

(2) The provisions listed in Part 2 of the Schedule are revoked.

*Eluned Morgan*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
9 Mawrth 2023

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers
9 March 2023

(**1**) O.S. 2006/942 (Cy. 91).
(**2**) O.S. 2010/288 (Cy. 37), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/235, O.S. 2013/898 (Cy. 102), O.S. 2015/137, O.S. 2015/509 (Cy. 43), O.S. 2016/481, O.S. 2019/349 (Cy. 83), O.S. 2020/493 (Cy. 116), O.S. 2020/1073 (Cy. 241) ac O.S. 2022/634.
(**3**) O.S. 2010/289 (Cy. 38), a ddiwygiwyd gan O.S. 2015/507 (Cy. 42) ac O.S. 2019/349 (Cy. 83).

(**1**) S.I. 2006/942 (W. 91).
(**2**) S.I. 2010/288 (W. 37), amended by S.I. 2013/235, S.I. 2013/898 (W. 102), S.I. 2015/137, S.I. 2015/509 (W. 43), S.I. 2016/481, S.I. 2019/349 (W. 83), S.I. 2020/493 (W. 116), S.I. 2020/1073 (W. 241) and S.I. 2022/634.
(**3**) S.I. 2010/289 (W. 38), amended by S.I. 2015/507 (W. 42) and S.I. 2019/349 (W. 83).

## YR ATODLEN Rheoliad 13

## Dirymiadau ychwanegol

### RHAN 1

**1.** Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2015(**1**).

**2.** Gorchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) (Diwygio) 2015(**2**).

**3.** Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2020(**3**).

### RHAN 2

**4.** Erthygl 85(2)(b) o Orchymyn Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (Cymru) (Rhif 2) 2004(**4**).

**5.** Paragraff 13 o Atodlen 1 i Orchymyn Deddf Iechyd 1999 (Diwygiadau Canlyniadol) (Nyrsio a Bydwreigiaeth) 2004(**5**).

**6.** Paragraff 4 o Atodlen 2 i Orchymyn Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddol Personol a Diddymu'r Bwrdd Ymarfer Deintyddol 2006(**6**).

**7.** Erthygl 2(a) o Orchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011(**7**).

**8.** Erthyglau 6 a 7 o Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Newid Ardaloedd) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019(**8**).

(**1**) O.S. 2015/509 (Cy. 43).
(**2**) O.S. 2015/507 (Cy. 42).
(**3**) O.S. 2020/493 (Cy. 116).
(**4**) O.S. 2004/1016 (Cy. 113), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) O.S. 2004/1771, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**6**) O.S. 2006/562, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**7**) O.S. 2011/1063 (Cy. 154).
(**8**) O.S. 2019/349 (Cy. 83).

## SCHEDULE Regulation 13

## Additional revocations

### PART 1

**1.** The Community Health Councils (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) (Amendment) Regulations 2015(**1**).

**2.** The Community Health Councils (Establishment, Transfer of Functions and Abolition) (Wales) (Amendment) Order 2015(**2**).

**3.** The Community Health Councils (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) (Amendment) Regulations 2020(**3**).

### PART 2

**4.** Article 85(2)(b) of the General Medical Services Transitional and Consequential Provisions (Wales) (No. 2) Order 2004(**4**).

**5.** Paragraph 13 of Schedule 1 to the Health Act 1999 (Consequential Amendments) (Nursing and Midwifery) Order 2004(**5**).

**6.** Paragraph 4 of Schedule 2 to the General Dental Services, Personal Dental Services and Abolition of the Dental Practice Board Transitional and Consequential Provisions Order 2006(**6**).

**7.** Article 2(a) of the Equality Act 2010 (Specification of Relevant Welsh Authorities) Order 2011(**7**).

**8.** Articles 6 and 7 of the Local Health Boards (Area Change) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Order 2019(**8**).

(**1**) S.I. 2015/509 (W. 43).
(**2**) S.I. 2015/507 (W. 42).
(**3**) S.I. 2020/493 (W. 116).
(**4**) S.I. 2004/1016 (W. 113), to which there are amendments not relevant to these Regulations.
(**5**) S.I. 2004/1771, to which there are amendments not relevant to these Regulations.
(**6**) S.I. 2006/562, to which there are amendments not relevant to these Regulations.
(**7**) S.I. 2011/1063 (W. 154).
(**8**) S.I. 2019/349 (W. 83).

**9.** Erthygl 6(6) o Orchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2004(**1**).

**10.** Erthygl 3 o Orchymyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Awdurdodaeth a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2006(**2**).

**11.** Paragraff 17 o'r Atodlen i Orchymyn Cyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd 2007(**3**).

©ⓗHawlfraint y Goron 2023

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

**9.** Article 6(6) of the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003 (Commencement No. 1) (Wales) Order 2004(**1**).

**10.** Article 3 of the Public Services Ombudsman for Wales (Jurisdiction and Transitional Provisions and Savings) Order 2006(**2**).

**11.** Paragraph 17 of the Schedule to the References to Health Authorities Order 2007(**3**).

© Crown copyright 2023

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2004/480 (Cy. 49), a ddiwygiwyd gan O.S. 2004/1019 (Cy. 116) ac O.S. 2006/345 (Cy. 42).
(**2**) O.S. 2006/363 (Cy. 49).
(**3**) O.S. 2007/961 (Cy. 85), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) S.I. 2004/480 (W. 49), amended by S.I. 2004/1019 (W. 116) and S.I. 2006/345 (W. 42).
(**2**) S.I. 2006/363 (W. 49).
(**3**) S.I. 2007/961 (W. 85), to which there are amendments not relevant to these Regulations.

ISBN 978-0-348-39428-3

£6.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2023/299